**Safon Ansawdd Tai Cymru F2 i F3 - Newidiadau ar unwaith**

## Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amlinellu **newidiadau ar unwaith** i'r safon sydd angen eu gweithredu naill ai yn sgil diweddaru rheoliadau neu er mwyn rhoi mwy o eglurder a hyblygrwydd i landlordiaid wrth gyflawni'r safon. Bydd y newidiadau hyn i gyd yn cael eu cynnwys mewn safon wedi'i diweddaru a gaiff ei chyhoeddi yr haf nesaf. Fodd bynnag, yn absenoldeb safon wedi'i diweddaru, mae angen cadw at y newidiadau canlynol. Mae'r ddogfen hon yn disodli Safon Ansawdd Tai Cymru: Cwestiynau Cyffredin ar y wefan.

## Polisi Cydymffurfio / Adroddiad Monitro Cydymffurfiaeth (CMR)

**Disgrifiad o'r newid:**

Mae newid yn fformat Polisïau Cydymffurfio yn cael ei gyflwyno. O fis Hydref 2026 ac yn flynyddol o hynny ymlaen, bydd angen i Landlordiaid gyflwyno Adroddiad Monitro Cydymffurfiaeth (CMR) sy'n adrodd ar agweddau penodol ar y safon.

Bydd y **CMR** yn cwmpasu'r pynciau canlynol a dylid ei **gyflwyno ym mis Hydref** bob blwyddyn:

1. Datganiadau ar yr elfennau heb eu mesur
    - Cynnwys tystiolaeth wirioneddol ac enghreifftiau o arferion da
2. Gweithgarwch ymgysylltu â thenantiaid
    a. Cynnwys enghreifftiau gwirioneddol o weithgarwch
3. Cysylltedd Digidol
    a. I'w fframio o amgylch y tenant
4. Naratif landlord i esbonio eu methiannau casglu data
5. Llwyddo'n Amodol - Gweithgarwch sy'n gost ormodol
    a. I gynnwys tabl o gostau
6. Naratif TEP ar gyfer elfen 3b yn SATC
    a. I gynnwys yr holl waith a wnaed hyd yma a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio at y dyfodol

Er bod hyn yn newid o'r gofyniad Polisi Cydymffurfiaeth blaenorol, mae'n dal i gael ei ystyried yn arfer dda i sefydliad gynhyrchu Polisi Cydymffurfiaeth ar gyfer eu preswylwyr a'u rhanddeiliaid.

Mae rhagor o fanylion a thempled wedi'u cynnwys **ar ddiwedd y ddogfen hon.**

## Larymau Carbon Monocsid:

**Disgrifiad o'r newid:**

Mae angen i landlordiaid gyd-fynd â'r rheoliad canlynol ar unwaith: Dogfen Gymeradwy J (Offer hylosgi a systemau storio tanwydd) rhifyn 2010 yn cynnwys diwygiadau 2010 a 2024 amendments (WGC 004/2024) (Saesneg yn unig) | LLYW.CYMRU

Pan fydd y safon yn cael ei diweddaru, bydd yn cynnwys ychwanegiadau i'r testun a fydd yn cynnwys offer hylosgi a phoptai â **ffliwiau sefydlog** a **nwy LPG**. Mae Dogfen Gymeradwy J yn ehangu'r gofyniad i gynnwys **yr holl fannau** lle mae offer hylosgi ffliw sefydlog wedi'i osod **gan gynnwys garejys a chroglofftydd,** neu mewn llety risg uchel, hynny yw, ystafell wely neu brif ystafell breswylio (e.e., ystafell fyw) lle mae ffliw yn pasio drwyddi.

Mae cydymffurfiaeth â'r Safon Brydeinig berthnasol yn aros yr un fath, ond bydd cyfeiriad at **Ran 1:2018** yn cael ei gynnwys yn y Safon ddiwygiedig sy'n amlinellu'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer larwm ac yn cynnwys y geiriad ychwanegol ar gyfer **seinydd integredig.** Bydd y Safon ddiwygiedig hefyd yn cynnwys cyfeiriad pellach at ganllawiau ac argymhellion ar y gosod.

## Cysylltedd Digidol:

**Disgrifiad o'r newid:**

Nid yw'r safon bellach yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid asesu a dweud faint o gartrefi nad oes ganddynt fynediad at fand eang sefydlog â chyflymder lawrlwytho o 30Mbps ac sy'n derbyn signal symudol 4G o fewn eu Polisi Cydymffurfiaeth. Bydd angen i landlordiaid adrodd yn erbyn y gofynion Cysylltedd Digidol newydd yn yr Adroddiad Monitro Cydymffurfiaeth (CMR) newydd. Bydd y gofynion newydd yn gofyn i Landlordiaid adrodd ar eu dealltwriaeth o'r seilwaith digidol yn eu stoc dai a mynd i'r afael â chynhwysiant digidol trwy ymgysylltu ystyrlon a chymorth wedi'i dargedu i'w tenantiaid.

## Y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS):

**Disgrifiad o'r newid:**

Ni fydd angen i landlordiaid adrodd sgoriau HHSRS cyfartalog cenedlaethol mewn perthynas ag elfennau o fewn y safon. Bydd y cyfeiriad at sgoriau HHSRS cyfartalog cenedlaethol yn cael ei ddileu yn y fersiwn nesaf o'r safon a gaiff ei chyhoeddi yn haf 2026.

Mae gan landlord rwymedigaeth gyfreithiol i drwsio Peryglon Categori 1. Felly, os oes gennych eiddo gyda Pherygl Categori 1 sy’n parhau heb ei drwsio ar 31 Mawrth, rydym yn disgwyl i chi adrodd y sgôr honno i ni.

Mae’r safon bresennol hefyd yn nodi y dylai landlordiaid nodi nad yw absenoldeb perygl Categori 1 ar gyfer lleithder (Elfen 2b) yn gyfystyr â llwyddo, ac na fyddai anheddau â mân broblemau lleithder a asesir fel peryglon Categori 2 yn llwyddo i gyflawni’r safon. Y safon yw y dylai’r annedd fod yn ‘rhydd o leithder’, gan gynnwys cyddwysiad parhaus. Mae’r sefyllfa hon yn parhau mewn perthynas ag Elfen 2b ac ni fydd yn newid. Bydd yn ofynnol i landlordiaid adrodd am unrhyw sgoriau Categori 1 neu Gategori 2 mewn perthynas â lleithder.

## Diogelwch tân:

**Disgrifiad o’r newid:** Nid yw’r gofynion canfod tân wedi’u diweddaru wedi newid, ond bydd y fersiwn ddiweddaraf o’r safon a gaiff ei chyhoeddi yr haf nesaf yn cynnwys testun ychwanegol sy’n nodi amserlen ar gyfer cyflawni elfen 2c (Rhaid bod gan gartrefi system canfod tân a larwm ddigonol a gaiff ei chynnal a’i chadw i’r Safon Brydeinig briodol). Fel yr amlinellir yn y ddogfen am ddiogelwch tân a anfonwyd at bob landlord ym mis Mawrth 2025.

Fodd bynnag, mae amserlen newydd ar adrodd ac mae hon i ddod i rym ar unwaith.

Isod mae’r hyn rydym yn ei ddisgwyl ar gyfer y blynyddoedd canlynol:

2024/25 – I basio 2c) Rhaid bod gan gartrefi:

- system canfod tân a larwm ddigonol a oedd yn cydymffurfio â’r Safon Brydeinig briodol adeg ei gosod.

2025/26 i 2029/30 - I basio 2c) Rhaid bod gan gartrefi:

- synhwyrydd mwg ym mhob ardal gylchrediad ar bob llawr sy’n rhan o’r llwybrau dianc o’r fangre, fel coridorau ac ardaloedd pen grisiau

2030 ymlaen – I basio 2c) Rhaid bod gan gartrefi:

- Synhwyrydd mwg ym mhob ardal gylchrediad ar bob llawr sy’n rhan o’r llwybrau dianc o’r fangre, fel coridorau ac ardaloedd pen grisiau.
- Synhwyrydd mwg yn y brif ystafell fyw a ddefnyddir at ddibenion byw cyffredinol yn ystod y dydd (fel arfer yr ystafell fyw/lolfa).
- Synhwyrydd gwres ym mhob cegin (gan gynnwys cegin / ardaloedd byw cynllun agored; ni ddylid defnyddio synwyryddion mwg mewn ystafelloedd o’r fath).

## Eiddo Gwag Hirdymor Strategol – Adrodd

**Disgrifiad o’r newid:**

Gall eiddo sy’n wag ac y mae bwrdd/cabinet wedi cymeradwyo ei waredu gael ei eithrio o ffigurau adrodd landlordiaid ar gyfer SATC o fis Mawrth 2026 ymlaen.

Mae angen cynnwys pob eiddo gwag arall sy’n hunangynhwysol ac sydd dan feddiant a rheolaeth lwyr landlordiaid yn yr adroddiadau SATC.

## Cyflwyno Cod Rheswm Newydd: Elfen 3b) Methu Dros Dro - Wedi’i raglennu â TEP

**Disgrifiad o’r newid:**

Mae cod rheswm ychwanegol yn cael ei gyflwyno i helpu gyda’r gwrthdaro posibl o gyflawni Elfen 3b (SAP 75) a 3a (SAP 92). Y cod rheswm yw Methu Dros Dro - Wedi’i raglennu â TEP. Bydd adrodd 3b (SAP75) a’r cod rheswm hwn yn berthnasol o 2030 ymlaen.

Rydym yn cydnabod bod yna lwybr gorau posibl tuag at wella cartrefi wrth gynllunio i gyflawni’r targedau a nodir yn y safon ac y gallai hyn wrthdaro â chynllun i gyflawni SAP 75.

Er enghraifft, bydd gosod PV Solar yn gynnar yn gwella cartref tuag at darged SAP 75, ond gall wrthdaro â chynllun amlen, a gynhelir ar adeg briodol o fewn cylch bywyd to tŷ.

<u>Bydd y cod rheswm newydd hwn yn caniatáu i landlordiaid sydd â Llwybr Ynni Targed (TEP) llawn ar waith weithredu’r mesurau ar yr adeg briodol.</u>

Dylai’r TEP i ddatblygu rhaglen waith yn y dyfodol ar gyfer pob cartref gymryd blaenoriaeth dros darged tymor byr SAP 75. Ar hyn o bryd, dim ond os bydd rhaglen waith y dyfodol wedi’i chynllunio ar gyfer yr eiddo erbyn 2035 y gall landlordiaid ohirio cyflawni SAP 75.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu gofynion adrodd SATC yn barhaus i flaenoriaethu dilyn y llwybr gorau posibl ar gyfer gwella cartrefi.

## Atodiad 1: Adroddiad Monitro Cydymffurfiaeth (CMR) Llywodraeth Cymru

O fis Hydref 2026 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru’n gofyn am Adroddiad Monitro Cydymffurfiaeth (CMR). Mae hyn yn golygu na fydd angen i chi gyflwyno’ch Polisi Cydymffurfiaeth ym mis Mawrth 2026.

Bydd y **CMR** yn wahanol i’ch Polisi Cydymffurfiaeth gan y bydd yn ofynnol i landlordiaid adrodd ar agweddau penodol ar y safon yn unig a dylent lenwi’r templed gofynnol isod.

SYLWER: bydd disgwyl i landlordiaid gynhyrchu **eu Polisi Cydymffurfiaeth** eu hunain ar gyfer eu preswylwyr, staff a rhanddeiliaid. Mae gan eu Polisi Cydymffurfiaeth rôl allweddol wrth gyfathrebu dull y landlord cymdeithasol o ymdrin â'r rhaglen SATC, amgylchiadau lleol ac unrhyw benderfyniadau perthnasol a wneir i'w preswylwyr, staff a rhanddeiliaid.

Gall eu Polisi Cydymffurfiaeth gwmpasu unrhyw feysydd yr hoffent eu dwyn sylw eu preswylwyr, staff neu randdeiliaid ond dylai hefyd gynnwys y penawdau o'r safon NAD ydynt yn rhan o'r CMR gan gynnwys:

- **Eich dull cyffredinol mewn perthynas â SATC** (dylech gynnwys cyfeiriadau at eich adnoddau a'ch amgylchiadau lleol)
- **Dilysu Annibynnol** – dylech sicrhau bod parti annibynnol yn parhau i ddilysu eich Polisi Cydymffurfiaeth. Dylai gynnwys manylion y prosesau a ddefnyddir a sut mae annibyniaeth yn cael ei sicrhau.
- **Datganiad Cydymffurfiaeth ar gyfer tenantiaid newydd** – dylid cyhoeddi hwn adeg ailosod. Os nad yw'r eiddo yn bodloni'r safon adeg ailosod, dylai'r datganiad gynnwys gwybodaeth ynghylch pryd mae'n debygol o fodloni'r safon.
- **Ailddatblygu, dymchwel a Charbon** – dylech gynnwys manylion am sut rydych wedi ystyried carbon wrth asesu'r opsiynau ar gyfer unrhyw waith ailddatblygu neu ddymchwel arfaethedig.
- **Manteision cymunedol** – dylech dynnu sylw at ganlyniadau cadarnhaol i bobl a chymunedau lleol a gynhyrchir gan raglen SATC a dangos sut mae'r rhain yn cael eu mesur.

Er na fydd disgwyl i landlordiaid gyflwyno eu Polisïau Cydymffurfiaeth i Lywodraeth Cymru i fod yn destun craffu, mae cael polisi o'r fath yn cael ei ystyried yn arfer dda. Mae hefyd yn arfer dda sicrhau bod Polisi Cydymffurfiaeth pob landlord:

- wedi'i lofnodi gan eu Bwrdd neu gyfwerth ar gyfer Lwfansau Tai Lleol;
- wedi'i gyhoeddi ar eu gwefan; ac
- yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiweddaru os oes angen.

Bydd adroddiadau ystadegol SATC yn parhau i ddangos y cynnydd a wnaed wrth fodloni'r Safon.

Templed yr **Adroddiad Monitro Cydymffurfiaeth (CMR)**

I'w gyflwyno i HousingQualityStandards@gov.wales bob mis Hydref (gan ddechrau ym mis Hydref 2026).

Defnyddir yr adroddiad CMR i ddangos penderfyniadau'r landlord ynghylch cydymffurfio â'r safon. Mae'n caniatáu i landlordiaid adlewyrchu eu hadnoddau a'u hamgylchiadau lleol.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn rhoi adborth ar bob pennawd.

*Cofiwch ddileu'r holl destun mewn COCH cyn cyflwyno.*

| **1** | **DATGANIADAU AR YR ELFENNAU HEB EU MESUR** |
|---|---|
| | Cyd-destun:<br><br>Nid yw pum elfen o fewn y safon (3d, 6d, 6e, 8b ac 8c) yn cael eu mesur yn ffurfiol ond mae'n ofynnol i chi ddarparu datganiad esboniadol manwl er mwyn i Lywodraeth Cymru ddeall sut rydych yn gweithio tuag at yr elfennau hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y dull o fynd i'r afael â'r agweddau gwerthfawr hyn ar gartref a chymdogaeth tenant yn cael ei ystyried.<br><br>Dylai'r datganiad esboniadol isod amlinellu sut mae penderfyniadau wedi'u gwneud ar y gwaith sydd wedi'i wneud, sut mae'r angen wedi'i asesu a'i flaenoriaethu a sut mae tenantiaid wedi cael llais yn y broses. |
| | *Mae'r adran hon i gynnwys amlinelliad o weithgarwch gwirioneddol sydd wedi digwydd gan ddefnyddio enghreifftiau o arferion da y mae eich sefydliad wedi'u rhoi ar waith o ran yr elfennau canlynol - 3d, 6d, 6e, 8b ac 8c.*<br><br>*Dilëwch – Rhai enghreifftiau o arferion da:*<br><br>***3d Rhaid i landlordiaid gynnal Asesiad o'u Stoc Gyfan a llunio Llwybrau Ynni Targed ar gyfer eu cartrefi.***<br>• *Cynnydd o ran cynnal Asesiad Ansawdd Data*<br>• *Cynnydd o ran paratoi Cynllun Gwella Ansawdd Data*<br>• *Dull o gynhyrchu TEP, gan gynnwys y systemau asedau a modelu a ddefnyddiwyd i gasglu, cofnodi a phrosesu gwybodaeth;*<br><br>***6d I'r graddau y bo'n bosibl, dylai cartrefi fodloni gofynion penodol y meddianwyr.***<br>• *Cynnal asesiadau o anghenion a gofynion tai yr ymgeisydd a darparu enghreifftiau o addasiadau a roddwyd ar waith (os oes angen)*<br>• *Nodi unrhyw ddyluniad diwylliannol briodol sydd wedi'i wneud yn gysylltiedig â'r safon ac arferion da*<br>• *Cynnal gwaith proffilio tenantiaid ac o bosibl mabwysiadu model cydgynhyrchu* |

| | |
|---|---|
| | • *Cynnwys swyddog cyswllt tenantiaid ac o bosibl timau Iechyd Galwedigaethol*<br><br>***6e Gofynion tai pobl anabl a phobl hŷn***<br>• *Defnyddio Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol sy'n cynghori timau datblygu am ofynion penodol sydd angen eu bodloni i wella hygyrchedd*<br>• *Enghreifftiau o sut rydych chi'n asesu ac yn ymateb i anghenion tai eich pobl hŷn trwy arolygon, ymgynghoriadau neu ddulliau eraill*<br>• *Enghreifftiau o sut rydych chi'n asesu ac yn ymateb i anghenion eich pobl anabl*<br>• *Er enghraifft, gallech gomisiynu prosiect ymchwil i ddeall meddyliau a barn pobl hŷn yn well i lywio adolygiad o'r tai gwarchod presennol a'r cynnig presennol i bobl hŷn.*<br><br>***8b Mannau allanol deniadol***<br>• *Gallech gynnal archwiliadau ystadau rheolaidd a defnyddio swyddogion diogelwch cymunedol i fonitro ardaloedd*<br>• *Gallech nodi ardaloedd lle gellid cydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, baw cŵn, rheoli plâu a cherbydau wedi'u gadael*<br>• *Defnyddio arolygon/ymgynghoriadau i nodi cynlluniau/cyfleoedd amgylcheddol*<br>• *Gallech osod targedau tenantiaid i nodi pa mor fodlon ydyn nhw â'u mannau allanol (ee 75%)*<br>• *Gallech ddefnyddio amrywiaeth o fentrau i annog tenantiaid i gymryd rhan*<br><br>***8c Bioamrywiaeth – cysylltiedig ag arferion da a nodwyd yn SATC 2023***<br>• *Dylech ddarparu amlinelliad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma*<br>• *Gallech weithio'n agos gyda'ch cymunedau a phartneriaid eraill ar fentrau bioamrywiaeth. Gallai grwpiau gynnwys:*<br><br>• *Ysgolion*<br>• *Tenantiaid*<br>• *Cymdeithasau Tai Eraill*<br>• *Awdurdodau Parciau Cenedlaethol*<br>• *Awdurdodau Lleol*<br>• *Sefydliadau'r Trydydd Sector*<br>• *Elusennau*<br><br>• *Gallai eich mentrau bioamrywiaeth gynnwys:*<br><br>• *Ymgynghori â chymunedau lleol ar y newidiadau bioamrywiaeth i'w cymdogaeth*<br>• *Plannu bylbiau, dolydd blodau gwyllt a choed* |

| | |
|---|---|
| | • *Gweithio gydag ecolegwyr i wella Gwybodaeth Sefydliadol ar sut i helpu orau gydag adferiad natur, creu cynefinoedd a thargedu rhywogaethau sydd angen help i ffynnu*<br>• *Cymryd rhan a hyrwyddo'r fenter genedlaethol 'Mai di-dor'* ac *ymgyrch 'Iddyn Nhw'*<br>• *Plannu ar gyfer pryfed peillio, a lleihau plaladdwyr* |
| **2** | **CYSYLLTEDD DIGIDOL** |
| | Cyd-destun:<br><br>Mae'n ofynnol i landlordiaid **ddeall y seilwaith digidol** yn eu stoc dai a **mynd i'r afael â chynhwysiant digidol** trwy ymgysylltu ystyrlon a chymorth wedi'i dargedu i denantiaid. Dylid cymryd dull deublyg:<br><br>1. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd gan landlordiaid o bosibl y gallu i osod y seilwaith digidol angenrheidiol. Fodd bynnag, dylai landlordiaid cymdeithasol weithio gyda darparwyr gwasanaethau band eang a symudol i asesu a gosod cynlluniau priodol ar gyfer anghenion seilwaith digidol presennol ac yn y dyfodol ar draws eu stoc dai.<br><br>2. Dylai landlordiaid nodi tenantiaid sydd heb fynediad at gysylltedd band eang a symudol dibynadwy sy'n ddigon da i gefnogi anghenion yr aelwyd. Dylai hyn ystyried y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol, lle mae angen cysylltedd dibynadwy a digonol ar bobl. Mae landlordiaid cymdeithasol yn cael eu hannog i ymgysylltu â'u tenantiaid; gellid meithrin hyn trwy strategaeth effeithiol ar gyfer Ymgysylltu â Thenantiaid. Dylai landlordiaid gefnogi tenantiaid i gyflawni cynhwysiant digidol, yn enwedig pan mae problemau hysbys gyda chysylltedd band eang neu gysylltedd symudol. Dylai landlordiaid gefnogi tenantiaid, os byddant yn dewis, i fagu hyder digidol, gan eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y gall technolegau digidol eu cynnig.<br><br>Mwy am y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol:<br><br>• Y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol (Fideo)<br>• Tuag at y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol: adroddiad terfynol<br>• Ymchwil ac astudiaethau achos y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol |
| | *500 gair - I gynnwys:*<br>• *Naratif ar eich cynnydd tuag at* ***ddeall y seilwaith digidol***<br>• *Naratif ar eich cynnydd tuag at* ***fynd i'r afael â chynhwysiant digidol*** *a chefnogi nodau'r safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol*<br>• *Nifer y cartrefi heb fynediad at seilwaith band eang dibynadwy a digonol (lle mae'n hysbys)*<br>• *Nifer y cartrefi nad ydynt yn gallu derbyn signal symudol y gellir ei ddefnyddio (lle mae'n hysbys)*<br><br>*Dilëwch - enghraifft o arferion da* |

| | |
|---|---|
| | [Astudiaethau achos ar gyfer cynllun peilot y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol: cymdeithasau tai \| LLYW.CYMRU]<br><br>*Byddwn yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol, darparwyr telathrebu, a chwmnïau technoleg i ehangu a gwella seilwaith digidol ledled y rhanbarth. Mae ein gwaith gyda phartneriaid allweddol wedi'n helpu i ddeall yr amserlen a'r cynllun ar gyfer uwchraddio seilwaith ar draws ein hystadau. Mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar denantiaid yr ardaloedd hynny sydd heb fynediad at gysylltedd band eang a chysylltedd symudol dibynadwy ar hyn o bryd.*<br><br>*Trwy ein gweithgareddau ymgysylltu â thenantiaid, rydym wedi nodi 12 cartref sydd heb fynediad at fand eang ar hyn o bryd, a 18 cartref arall mewn ardaloedd gwledig lle nad yw tenantiaid yn gallu derbyn signal symudol y gellir ei ddefnyddio. Mewn ymateb, rydym wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â thenantiaid sydd wedi'u heffeithio er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwyntiau mynediad rhad ac am ddim i'r rhyngrwyd yn y gymuned, gan gynnwys ein swyddfa, lle mae croeso iddyn nhw gysylltu â'r rhyngrwyd a chael mynediad at wasanaethau ar-lein hanfodol.*<br><br>*Er mwyn lliniaru rhwystrau ariannol i fynediad digidol, rydyn ni wedi:*<br>• *Nodi darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd sy'n cynnig pecynnau band eang â chymhorthdal ar gyfer teuluoedd ac unigolion incwm isel.*<br>• *Archwilio opsiynau cyllido ar gyfer prynu dyfeisiau digidol hanfodol fel cyfrifiaduron, llechi a ffonau clyfar.*<br><br>*Ein cynnig:*<br>• *Gweithdai sgiliau digidol a sesiynau hyfforddi am ddim sy'n cwmpasu pynciau sylfaenol i uwch, megis diogelwch ar y rhyngrwyd, bancio ar-lein, a chwilio am swyddi.*<br>• *Rhwydwaith o hyrwyddwyr digidol - gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi sy'n gallu rhoi cymorth mentora un i un i denantiaid.*<br>*Cydweithio â sefydliadau cymunedol i hyrwyddo mentrau llythrennedd ac addysg ddigidol.*<br>• *Cymorth un i un wedi'i deilwra i'r gymuned, gan helpu gyda thasgau fel anfon negeseuon e-bost, llywio'r rhyngrwyd, a gosod meddalwedd newydd.*<br><br>*Byddwn yn meithrin diwylliant o gynhwysiant digidol trwy:*<br>• *Sefydlu Prosiect Cynhwysiant Digidol i oruchwylio a llywio'r broses o weithredu mentrau cysylltedd digidol.*<br>• *Cynnal arolygon ac ymgynghoriadau rheolaidd gyda thenantiaid i nodi a mynd i'r afael ag anghenion a heriau digidol penodol.*<br>• *Creu canolfannau cynhwysiant digidol mewn canolfannau cymunedol lle gall tenantiaid gael gafael ar adnoddau, mynychu gweithdai, a derbyn cymorth personol.* |
| 3 | GWEITHGARWCH YMGYSYLLTU Â THENANTIAID |
| | Cyd-destun:<br><br>Mae darparu tai cymdeithasol o ansawdd uchel yn dibynnu ar feithrin ymgysylltiad dwyffordd yng ngwir ystyr y gair rhwng landlordiaid a thenantiaid. Pan fydd tenantiaid yn teimlo bod pobl eraill yn gwrando arnynt, yn eu parchu ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau, mae landlordiaid yn cyflawni gwelliannau mwy cynaliadwy i wasanaethau, cysylltiadau cymunedol cryfach |

| | |
|---|---|
| | ac yn sicrhau gwell enw da. Trwy arfer egwyddorion ymgysylltu â thenantiaid da a'u gwneud yn rhan annatod o arferion bob dydd, gall landlordiaid drawsnewid ymgysylltu â thenantiaid o ymarfer ticio bocs i sbardun ar gyfer rhagoriaeth wirioneddol mewn gwasanaethau a chymunedau mwy grymus. |
| | *500 gair - mae'r adran hon i gynnwys amlinelliad o weithgarwch gwirioneddol sydd wedi digwydd gan ddefnyddio enghreifftiau o arferion da eich sefydliad*<br><br>*Dilëwch - enghraifft o arferion da*<br><br>• Mae cyfle i denantiaid fynegi barn.<br>• Mae tenantiaid yn cael eu hannog i roi adborth, a gwrandewir ar yr adborth hwnnw.<br>• Mae newidiadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar fewnbwn tenantiaid neu mae tystiolaeth yn dangos bod eu lleisiau wedi cael eu hystyried yn y broses gwneud penderfyniadau.<br><br>*Awgrymiadau gweithredu ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol â thenantiaid*<br>• Fformatau hyblyg: Cynnig sesiynau hybrid, gyda'r nos, ar benwythnos, a galw heibio. Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun, ac arolygon ar-lein ochr yn ochr â chyfathrebu ysgrifenedig mwy traddodiadol<br>• Iawndal a chymorth: Ad-dalu costau teithio a gofal plant neu ystyried darparu talebau, pan fyddwch chi'n disgwyl i denantiaid roi cryn dipyn o'u hamser<br>• Hyfforddi a grymuso tenantiaid: Darparu gweithdai hygyrch ar feysydd fel SATC, mesurau/manteision datgarboneiddio, rheoliadau tai cymdeithasol, a hyd yn oed sgiliau cyfarfod i wella hyder a gallu.<br>• Hyrwyddo rhagweithiol: Targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy rwydweithiau cymunedol, digwyddiadau lleol, 'diwrnodau hwyl' cymunedol a thaflenni neu ymgyrchoedd digidol wedi'u teilwra.<br>• Dangos effaith: Cyhoeddi diweddariadau syml sy'n dangos sut mae adborth tenantiaid wedi dylanwadu ar bolisïau, gwaith trwsio neu welliannau i wasanaethau. Dathlu buddugoliaethau ac amlinellu'r camau nesaf ar gyfer materion parhaus.<br>• Dechrau'n fach: treialu arferion ymgysylltu newydd mewn un gymuned cyn cyflwyno ar draws y sefydliad.<br>• Mesur effaith: olrhain cyfraddau cymryd rhan, arolygon boddhad, a gwelliannau i'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â mewnbwn tenantiaid.<br>• Ymwreiddio dysgu parhaus: adolygu canlyniadau ymgysylltu bob chwarter ac addasu strategaethau yn seiliedig ar adborth tenantiaid<br>• Llwyfannau digidol: archwilio apiau neu byrth ar-lein sy'n symleiddio adborth, pleidleisio, a diweddariadau statws.<br>• Hyfforddiant staff: addysgu sgiliau cyfathrebu, ymwybyddiaeth ddiwylliannol, a datrys gwrthdaro, i staff rheng flaen ac uwch staff<br><br>*Enghreifftiau o fodelau ymgysylltu ffurfiol* |

| | |
|---|---|
| | • byrddau tenantiaid<br>• paneli fel paneli craffu neu gwynion<br>• grwpiau diddordeb arbennig fel grwpiau LHDT neu anabledd<br>• tenantiaid a chymdeithas tenantiaid<br><br>*Enghreifftiau o fodelau ymgysylltu anffurfiol*<br>• cyfarfodydd cymunedol, digwyddiadau lleol a 'diwrnodau hwyl'<br>• grwpiau gweithredu cymunedol<br>• grwpiau ffocws, cymunedau ar-lein neu fforymau trafod<br>• arolygon |
| 4 | NARATIF LANDLORD I ESBONIO EU METHIANNAU CASGLU DATA, YN ÔL ADRAN AC ELFEN |
| | Cyd-destun:<br>Os yw rhai o'ch eiddo yn methu, gallwch amlinellu isod y rhesymeg dros pam mae'r eiddo'n methu. Gallai'r rhesymeg gynnwys materion fel cost, data coll, staffio, arbenigedd neu unrhyw reswm arall.<br><br>Cofiwch gynnwys yr adran berthnasol a'r cyfeirnod elfen yn eich naratif. |
| | *Rhestrwch isod bob adran ac elfen sydd wedi methu'r safon a nifer yr eiddo*<br><br>*Dilëwch - esiampl o'r hyn a ddisgwylir*<br><br>Adran 1 - Elfen 1b - Mae 10 eiddo yn methu oherwydd ffordd o fyw tenantiaid - bydd swyddogion yn parhau i gysylltu â'r tenantiaid a chynnig cyngor ar opsiynau awyru a gwresogi. Bydd swyddogion yn parhau i fonitro'r eiddo. |
| 5 | LLWYDDO'N AMODOL - GWEITHGARWCH SY'N GOST ORMODOL |
| | Cyd-destun:<br><br>Ar gyfer pob elfen sy'n defnyddio'r cod cost ormodol llwyddo'n amodol, mae angen i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys costau amcangyfrifedig a nifer yr eiddo sy'n defnyddio'r cod asesu hwn |
| | *Rhestrwch isod bob elfen sydd wedi defnyddio'r cod cost ormodol a nifer yr eiddo y mae'r cod wedi'i gymhwyso iddynt*<br><br>*Dilëwch - esiampl o'r hyn a ddisgwylir*<br><br>Elfen 8a – 10 eiddo – Amcangyfrif bod y gost yn £100,000 |

| 6 | NARATIF Y LLWYBRAU YNNI TARGED (TEP) ar gyfer 3b yn SATC |
|---|---|
| | Cyd-destun:<br>Ar gyfer pob elfen sy'n defnyddio'r cod llwyddo amodol neu fethu dros dro yn 3b, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae elfen 3b yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid uwchraddio eu heiddo i SAP 75 erbyn 2030.<br><br>Fodd bynnag, lle gall landlordiaid ddangos trwy eu Llwybrau Ynni Targed y byddai gosod mesurau penodol i gyflawni 3b yn peryglu cynnydd tuag at 3a, gellir adrodd am eithriadau.<br><br>Mae Atodiad 3 'Asesu'r Stoc Gyfan a Llwybrau Ynni Targed' [A3] – t.63 yn nodi dull y gallai landlordiaid ddewis ei ddilyn i gynhyrchu Llwybrau Ynni Targed (TEPs).<br><br>Mae A3 - Adran 3 - 'Llwybrau Ynni Targed' [3.1.1 i 3.1.6] hefyd yn disgrifio ffactorau a fydd yn llywio'r gwaith o baratoi Llwybrau Ynni Targed.<br><br>A3 - Adran 4 - Mae '4.2 Mesurau sy'n gost ormodol, ac ymarferoldeb' yn disgrifio pryd y gellir ystyried bod cost mesurau yn ormodol. |
| | *(Dilëwch - esiampl o'r hyn a ddisgwylir)*<br><br>Pan na fydd cartrefi, neu fathau o gartrefi, yn cyflawni'r safon a nodir yn 3b, disgrifiwch y ffactorau ar gyfer adrodd ar bob cod asesu.<br><br>Hefyd, nodwch faint o gartrefi sy'n adrodd pob cod asesu.<br><br>CP - Cyfyngiad Ffisegol / Treftadaeth / Cadwraeth;<br><br>TF - Wedi'i raglennu gyda TEP. Cofiwch gynnwys disgrifiad o sut mae'r ffactorau canlynol yn cefnogi'r TEP.<br><br>• Cyd-fynd â rhaglenni cyfalaf presennol [A3 - 3.1.3]<br>• Cyfyngiadau polisi – [A3 - 3.1.4] a [4.2]<br>• Adnodd – gan gynnwys costau [3.1.6] a [4.2]<br><br>TF – Tenant yn Achosi Oedi/Gwrthod<br><br>Rhowch o leiaf un eiddo enghreifftiol ar gyfer pob cod asesu |